Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Newid rheolau gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig, cartrefi gofal a darparwyr gwasanaethau

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Rheoleiddio gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig**'.

Mai 2023

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen cefnogaeth i’w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu.



Mae geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae’r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 49**.

Lle mae’r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** CareHomeTeam@gov.wales

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247**.

# Cynnwys

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma** ........ 2

**Cyflwyniad** ........ 4

**Y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud** ........ 6

Pennod 1 - I gael gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig i ddilyn y gyfraith dan yr enw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ........ 6

**Dyletswyddau unigolion cyfrifol** ........ 21

Pennod 2 - Newidiadau i'r rheolau am gartrefi gofal ........ 36

Pennod 3 - Gofyn i ddarparwyr gwasanaethau am wybodaeth ychwanegol ........ 40

Pennod 4 - Newid y canllawiau am ddilyn y rheolau ........ 42

**Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth** ........ 46

**Geiriau Anodd** ........ 49

# Cyflwyniad




Rydyn ni eisiau gwneud rhai newidiadau i'r rheolau ar gyfer sut  mae **gwasanaethau preswyl ysgol arbennig** yn cael eu rhedeg.



Mae g**wasanaethau preswyl ysgol arbennig** yn ysgolion lle mae plant yn gallu byw tra maen nhw'n cael:

- Addysg
- Gofal neu nyrsio
- Cefnogaeth

**Mae'r ddogfen yma yn cynnwys:**




- **Pennod 1** - Gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig i'w rheoleiddio gan ddeddf o'r enw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- **Pennod 2** - Newidiadau i reolau'r cartrefi gofal
- **Pennod 3** - Gwneud rheoliadau i gael gwybodaeth ychwanegol gan ddarparwyr gwasanaethau
- **Pennod 4** - Newidiadau i'r canllaw am ddilyn rheolau



Darllenwch y ddogfen yma os gwelwch yn dda ac atebwch y cwestiynau. Rydych chi'n cael ateb cymaint o gwestiynau ag rydych chi eisiau. Mae yna 28 cwestiwn.



Does dim rhaid i chi ateb unrhyw gwestiwn os nad ydych chi eisiau gwneud hynny.




Anfonwch eich atebion inni erbyn **6 Awst 2023** os gwelwch yn dda.



**Lawrlwythwch y ffurflen yma a'i e-bostio i:** CareHomeTeam@gov.wales



**Neu ei argraffu a'i phostio i:**

Cangen Polisi Cartref Gofal
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ




Mae'r holl wybodaeth am yr ymgynghoriad yma ar ein gwefan yma: www.llyw.cymru/rheoleiddio-gwasanaethau-preswyl-ysgolion-arbennig

# Y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud

## Pennod 1 - I gael gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig i ddilyn y gyfraith dan yr enw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016



Y flwyddyn diwethaf roedd ymchwiliad i'r risg y byddai plant yn profi **cam-drin rhywiol** mewn **ysgolion arbennig preswyl** a lleoliadau eraill.



**Cam-drin plant** ydy pan fydd rhywun yn gorfodi neu'n perswadio plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n meddwl pethau fel cyffwrdd, edrych ar ddelweddau rhywiol, gwylio gweithredoedd rhyw a chymryd rhan mewn gweithredoedd rhyw.



Fe wnaeth yr ymchwiliad ddweud mai'r peth gorau fyddai cynnal **ysgolion arbennig preswyl** i'r un safonau a chartrefi gofal.



Fe fyddai safonau newydd yn cael eu gosod fel rhan o **Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** ar gyfer ysgolion arbennig preswyl.



Rydyn ni eisiau edrych ar ymatebion pobl i'r ymgynghoriad yma a gwneud y newidiadau ym mis **Rhagfyr 2023**.



Mae ysgolion sy'n  darparu llety ar gyfer mwy na 295 diwrnod yn cael eu rheoli yn barod yn yr un ffordd â chartrefi gofal.



Dydy ysgolion sy'n darparu llety dim ond yn ystod y tymor ddim yn cael eu rheoli yn yr un ffordd. Dydy'r ysgolion yma ddim yn dod o dan y gyfraith yma.



**Fe fydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** yn gallu edrych ar y gwasanaethau yma hefyd.



Fe fyddan nhw hefyd yn gallu gweithredu os oes ganddyn nhw unrhyw bryderon.




Fe fyddai'r newidiadau'n berthnasol i ysgolion sy'n darparu gofal a llety i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ystod y tymor ysgol. Fe fydd yr ysgolion yma yn cael eu galw'n **wasanaethau preswyl ysgolion arbennig**.



Anghenion dysgu ychwanegol ydy'r enw newydd am anghenion addysgol arbennig. Weithiau mae dogfennau hŷn yn dal i ddefnyddio'r term anghenion addysgol arbennig.




Fe fyddai'r rheoliadau'n cael eu galw'n: **Rheoliadau drafft Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2023**.

## Cwestiwn 1:

**Ydy hi'n amlwg beth mae gwasanaethau preswyl ysgol arbennig yn ei feddwl?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
| ☺ | ☺ | ☹ | ☹ |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**

## Beth fyddai'r rheoliadau newydd yn ei feddwl i ddarparwyr gwasanaethau




Mae darparwyr gwasanaethau yn unigolion neu'n sefydliadau sy'n rhedeg gwasanaethau.



Os ydy'r newidiadau'n digwydd fe fyddai angen i ddarparwyr gwasanaethau wneud rhai pethau.



Mae'r pethau yma yn cael eu hesbonio yn rhannau 2 i12 o **Reoliadau drafft Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2023**.



**Dywed Rhan 2 o’r rheoliadau** y byddai darparwyr gwasanaethau yn gyfrifol am wirio a gwella gwasanaethau. Byddent yn gyfrifol am gyllid. A byddai angen iddynt weithredu mewn ffordd agored.

## Cwestiwn 2:

**Ydych chi’n cytuno y dylai darparwyr gwasanaethau ddilyn rheolau am y pethau yma?**

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**



**Mae Rhan 3 o'r rheoliadau** yn dweud y byddai angen iddynt gymryd camau i sicrhau bod eu gwasanaethau'n iawn i bob person.

## Cwestiwn 3:

**Ydych chi'n cytuno y dylai darparwyr gwasanaethau orfod dilyn rheolau am hyn?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**




**Mae rhan 4 o'r rheoliadau** am sut bydd y darparwr gwasanaeth yn ateb anghenion y person. Er enghraifft, llunio cynllun personol.

## Cwestiwn 4:

**Ydych chi'n cytuno y dylai darparwyr gwasanaethau orfod dilyn rheolau am hyn?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
| --- | --- | --- | --- |
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**




**Mae Rhan 5 o'r rheoliadau** am ddarparu gwybodaeth am y gwasanaeth. Fe ddylai'r wybodaeth fod yn ysgrifenedig ac yn cael ei roi mewn ffordd mae'r person yn gallu ei ddeall.

## Cwestiwn 5:

**Ydych chi'n cytuno y dylai darparwyr gwasanaethau orfod dilyn rheolau am hyn?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |



**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**



**Mae Rhan 6 o'r rheoliadau** am safonau gofal a fydd yn cael eu darparu. Maen nhw am wneud yn siŵr bod gwasanaethau o ansawdd uchel. Hefyd, mae yna fanylion am ddefnyddio gwasanaethau iechyd ac ateb anghenion eraill pob person.

## Cwestiwn 6:

**Ydych chi'n cytuno y dylai darparwyr gwasanaethau orfod dilyn y rheolau am bethau fel hyn?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**



**Mae Rhan 7 o'r rheoliadau** am sut y bydd pob person yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn cael ei amddiffyn rhag **camdriniaeth**.

> **Camdriniaeth** ydy pan mae rhywun yn eich anafu neu yn eich trin yn ddrwg.

## Cwestiwn 7:

**Ydych chi'n cytuno y dylai darparwyr gwasanaethau orfod dilyn rheolau am bethau fel hyn?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**



**Mae Rhan 8 o'r rheoliadau** am staffio a beth sydd yn ofynnol gan staff.

## Cwestiwn 8:

**Ydych chi'n cytuno y dylai darparwyr gwasanaethau orfod dilyn rheolau am staffio?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill yma:**




**Mae Rhan 9 o'r rheoliadau** am y rheolau ynghylch yr adeiladau sy'n cael eu defnyddio a'r offer.

## Cwestiwn 9:

**Ydych chi'n cytuno y dylai darparwyr gwasanaethau orfod dilyn rheolau am adeiladau ac offer?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill yma:**




**Mae Rhan 10 o'r rheoliadau** yn rhoi rheolau pellach am adeiladau, ystafelloedd a gofodau.

## Cwestiwn 10:

**Ydych chi'n cytuno y dylai darparwyr gwasanaethau orfod dilyn rheolau am y pethau yma?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**



**Mae Rhan 11 o'r rheoliadau** am gyflenwadau, iechyd a diogelwch a meddyginiaeth.

## Cwestiwn 11:

**Ydych chi'n cytuno y dylai darparwyr gwasanaethau orfod dilyn rheolau am y pethau yma?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**



**Mae Rhan 12 o'r rheoliadau** am gadw cofnodion, gwneud cwynion a materion adrodd.


## Cwestiwn 12:

**Ydych chi'n cytuno y dylai darparwyr gwasanaethau orfod dilyn rheolau am y pethau yma?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**

# Dyletswyddau unigolion cyfrifol



**Unigolyn cyfrifol** ydy person sy'n gyfrifol am y gwasanaeth ac mae'n gwneud yn siŵr ei fod yn rhedeg yn dda.



Mae rhannau 13 i 17 o'r **Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig drafft (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru)** yn dweud beth sy'n ofynnol gan yr unigolyn cyfrifol.



**Mae Rhan 13 o'r rheoliadau** am rôl unigolyn cyfrifol o reoli'r gwasanaeth. Fe fydd y person wedi'i gofrestru gyda **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Nhw ydy'r person cyfrifol cyffredinol.

## Cwestiwn 13:

**Ydych chi'n cytuno gyda hyn?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**




**Mae Rhan 14 o'r rheoliadau** am rôl unigolyn cyfrifol i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a gwneud yn siŵr ei fod yn dilyn rheolau. Mae'n rhaid iddyn nhw hefyd wneud adroddiadau am y gwasanaeth a darganfod beth mae pobl yn feddwl.

## Cwestiwn 14:

**Ydych chi'n cytuno y dylai unigolion cyfrifol ddilyn rheolau am bethau fel yma?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**




**Rhan 15 o'r rheoliadau.** Mae hyn am wneud yn siŵr bod y rheolau'n cael eu dilyn, mae cwynion yn cael eu dilyn i fyny a chofnodion yn cael eu cadw.

## Cwestiwn 15:

**Ydych chi'n cytuno y dylai unigolion cyfrifol ddilyn rheolau am bethau fel yma?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**




**Mae Rhan 16 o'r rheoliadau** am edrych ar y gwasanaeth a'i wella pan fydd angen. Fe fydd yr unigolyn cyfrifol yn gwneud adroddiad bob blwyddyn.

## Cwestiwn 16:

**Ydych chi'n cytuno y dylai unigolion cyfrifol ddilyn rheolau am y pethau yma?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**



**Mae Rhan 17 o’r rheoliadau** am ofynion eraill ar yr unigolyn cyfrifol. Er enghraifft, cefnogi staff sy’n adrodd ar broblemau, bod yn agored ac yn onest ac adrodd ar broblemau eu hunain.

## Cwestiwn 17:

**Ydych chi’n cytuno y dylai unigolion cyfrifol ddilyn rheolau am y pethau yma?**

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**



**Mae Rhan 18 o'r rheoliadau** o **Reoliadau drafft Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2023** am ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol sy'n methu â dilyn y rheolau.




Mae'n dweud bod methu dilyn y rheolau yn **drosedd.** Mae hyn yn meddwl torri'r gyfraith.

Mae Rhan 18 yn dweud:



- Mewn rhai achosion bydd ond yn cael ei weld fel trosedd os ydy rhywun yn cael niwed neu os ydy rhywun mewn perygl. Neu os oes arian neu eiddo wedi mynd ar goll neu os oes lladrad wedi digwydd.



- Hyd yn oed os nad ydy darparwr gwasanaeth neu unigolyn cyfrifol wedi cyflawni trosedd, mae'r gwasanaeth yn gallu colli ei gofrestriad. Neu mae'r person cyfrifol yn gallu colli eu swydd.



## Cwestiwn 18:

**Ydych chi'n meddwl bod y camau yma yn ddigon? Ydyn nhw'n deg?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**




**Mae Rhan 19 o'r rheoliadau** yn sôn am y camau mae'n rhaid eu cymryd os ydy darparwr gwasanaeth  yn mynd allan o fusnes neu os ydy'r darparwr gwasanaeth  yn marw.

Mae'n sôn am bwy sy'n gorfod cael gwybod.

## Cwestiwn 19:

**Ydych chi'n meddwl bod y camau yma yn gywir?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**



**Mae Rhan 20 o’r rheoliadau** am ddewis unigolyn cyfrifol. Mae’n dweud y dylai darparwyr gwasanaethau wneud hyn. Ond mewn rhai sefyllfaoedd, mae Gweinidogion  Cymru yn gallu gwneud hyn.

## Cwestiwn 20:

**Ydych chi’n credu ei bod hi’n iawn i Weinidogion Cymru ddewis yr unigolyn cyfrifol mewn rhai sefyllfaoedd?**

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**

**Mae rhai newidiadau eraill rydyn ni eisiau eu gwneud i'r rheolau:**



- Rydyn ni eisiau cynnwys gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig mewn rheolau am gofrestru a ffurflenni blynyddol. Adroddiad ydy ffurflen flynyddol gyda gwybodaeth bwysig am y gwasanaeth. Mae hyn yn meddwl gwybodaeth am staffio, hyfforddiant a chyfleusterau.



- Rydyn ni eisiau iddyn nhw ddilyn rheolau am sut i gofrestru fel gwasanaeth ac am wneud newidiadau i wasanaethau.




- Rydyn ni eisiau iddyn nhw gwblhau adroddiad blynyddol. Fe fyddai hyn yn cynnwys gwybodaeth fel staffio, hyfforddiant a'r gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg.

## Cwestiwn 21:

**Ydych chi'n cytuno gyda'r syniadau yma?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**

## Cwestiwn am nodweddion gwarchodedig




Mae **nodweddion gwarchodedig** i'w wneud â chyfraith o'r enw Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r ddeddf yma yn dweud bod llawer o bobl yn cael eu trin yn annheg am nifer o resymau. Er enghraifft, oherwydd eu hoed, anabledd, rhyw, hunaniaeth rywiol a phethau eraill.

Mae'r rhain yn cael eu galw'n **nodweddion gwarchodedig**. Mae'r gyfraith yn dweud bod angen gwneud mwy i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg.



### Cwestiwn 22:

**Ydych chi'n credu y bydd y newidiadau yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig? Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl yma:**




## Cwestiwn 23:

**Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig? Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl yma:**




Rydyn ni hefyd eisiau gofyn i chi os ydych chi’n credu y byddai’r newidiadau yma yn cael unrhyw effaith ar ddefnyddio’r Gymraeg.




Er enghraifft, ydych chi’n meddwl y bydd y rheolau yn gwneud gwahaniaeth i ddisgyblion sy’n gallu siarad Cymraeg mewn gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig.



## Cwestiwn 24:

**Pa effeithiau fyddai yna? A sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol a lleihau effeithiau negyddol?**

# Pennod 2 - Newidiadau i'r rheolau am gartrefi gofal



Fe fydden ni'n hoffi gwneud 2 newid i'r rheolau am gartref gofal.



Mae angen i gartrefi gofal sydd â mwy na 4 o bobl yn byw ynddo gael cyfleusterau ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys ystafelloedd gwely sydd â thoiledau a chawodydd a lle ychwanegol mewn ystafelloedd gwely.



Does dim rhaid i gartrefi gofal sydd â llai na 4 o bobl gael y cyfleusterau ychwanegol yma. Mae hyn oherwydd eu bod yn debycach i gartrefi teuluol.



Mae rhai darparwyr cartrefi gofal yn dechrau gyda llai na 4 o bobl ac yna'n cynyddu nifer yr ystafelloedd gwely wedi hynny. Dydy'r darparwyr yma ddim yn dilyn y rheolau o gael cyfleusterau ychwanegol.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod darparwyr sy'n cynyddu eu hystafelloedd gwely yn dilyn yr un rheolau.



Rydyn ni'n meddwl ei bod hi'n bwysig eu bod nhw'n gorfod dilyn y rheolau yma. Pwrpas hyn ydy gwneud yn siŵr bod gwasanaethau o safon uchel.

## Cwestiwn 25:

**Ydych chi'n cytuno gyda'n syniad i wneud yn siŵr bod darparwyr gwasanaethau yn gorfod dilyn rheolau newydd os ydyn nhw am ofalu am fwy o bobl?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**

# Cwestiwn am wasanaethau gofal awdurdodau lleol tymor byr



Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu llety ar gyfer gofal tymor byr. Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl i wella ar ôl salwch.



Dydyn ni ddim yn credu y dylai fod angen i'r rhain ddilyn y newidiadau yma i'r rheolau.



Yn ôl y gyfraith fe ddylai'r gwasanaethau yma ddilyn yr un rheolau â chartrefi gofal. Ond rydyn ni eisiau i'r gwasanaethau yma ddilyn yr un rheolau â gwasanaethau cymorth cartref. Weithiau mae'r gwasanaethau yma yn cael eu galw yn wasanaethau 'gofal cartref'.



Rydyn ni eisiau newid y rheolau fel bod y gwasanaethau yma yn cael dilyn yr un rheolau â gwasanaethau gofal cartref.



Mae hyn oherwydd ei bod yn ymarferol iddyn nhw ddilyn y rheolau yma pan fydd gwasanaethau yn rhai tymor byr.

## Cwestiwn 26:

**Ydych chi'n cytuno bod y gwasanaethau yma yn cael dilyn yr un rheolau â gwasanaethau gofal cartref?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**

# Pennod 3 - Gofyn i ddarparwyr gwasanaethau am wybodaeth ychwanegol



Mae cofrestr o holl ddarparwyr gwasanaethau Cymru yn cael ei gadw gan **Arolygiaeth Gofal Cymru**.




Maen nhw'n defnyddio'r gofrestr i roi gwybodaeth bwysig am ddarparwyr gwasanaethau.




Ar hyn o bryd, does dim rhaid i ddarparwyr gwasanaethau roi rhif ffôn na chyfeiriad e-bost os nad ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.



Rydyn ni eisiau newid hyn fel bod **yn rhaid** i ddarparwyr gwasanaethau roi rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.



Rydyn ni'n credu bod hyn yn bwysig ac fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod modd cysylltu â gwasanaethau yn hawdd.



Fe fydd hefyd yn helpu i wneud yn siŵr bod gan bobl ddewis ynglŷn â sut i gysylltu â nhw os oes ganddyn nhw anghenion ychwanegol.

## Cwestiwn 27:

**Ydych chi’n cytuno y dylai darparwyr gwasanaethau ddarparu rhif ffôn a chyfeiriad e-bost ar gyfer pob gwasanaeth?**

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
| --- | --- | --- | --- |
|  |  |  |  |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**

# Pennod 4 - Newid y canllawiau am ddilyn y rheolau




Mae canllaw yn cael ei roi i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ar sut i ddeall a dilyn **Rheoliadau Gwasanaethau Rheoledig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017**.




Mae canllaw yn meddwl cyngor. Mae'r canllaw yn rhoi mwy o wybodaeth am beth mae'r rheoliadau yn feddwl.




Mae'r canllaw wedi cael ei wneud dros 4 blynedd yn ôl.




Rydyn ni'n credu bod angen diweddaru'r canllaw. Mae angen iddo ddangos newidiadau i ddeddfau sydd wedi digwydd.




Hefyd, rydyn ni wedi gwneud newidiadau i'r iaith rydyn ni'n ei defnyddio. Er enghraifft, rydyn ni'n defnyddio geiriau sy'n canolbwyntio mwy ar gryfderau pobl ac sy'n fwy defnyddiol.



Rydyn ni'n defnyddio geiriau fel **cyd-gynhyrchu** yn lle ymgynghori mwy.

Mae **cyd-gynhyrchu** yn meddwl bod gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ran gyfartal wrth ddweud sut y dylai gwasanaethau redeg.



Mae'r canllaw newydd yn sôn mwy am roi dewis a rheolaeth i bobl.



Rydyn ni wedi siarad mwy am gredoau personol pobl yn cael eu cydnabod.



A siarad mwy am staff a'r archwiladau mae'n rhaid i staff eu cael i wneud yn siwr eu bod nhw yn ffit i weithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol

## Cwestiwn 28:

**Ydych chi'n cytuno â'n newidiadau i'r canllaw ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|



| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
|---|---|---|---|

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill yma:**

# Mwy o wybodaeth amdanoch chi

**Enw:**

**Y corff rydych chi'n gweithio iddo (os yn berthnasol):**

**E-bost:**

**Rhif ffôn:**

**Cyfeiriad:**

Efallai y byddwn ni'n cyhoeddi atebion pobl mewn adroddiad neu ar y we. Os nad ydych chi eisiau i'ch atebion gael eu cyhoeddi, ticiwch yma: ☐

Ydy'r atebion yn y ffurflen yma yn rhai chi neu'r sefydliadau rydych chi'n gweithio iddyn nhw?

Mwynglawdd ☐ Sefydliad ☐

Ydych chi eisiau inni anfon e-bost atoch i ddweud ein bod wedi derbyn eich ymatebion?

Oes ☐ Nac ydw ☐

# Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth




Rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth trwy ddilyn cyfraith o'r enw y **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU).**



Fe fydd ein staff yn gallu gweld eich atebion. Weithiau rydyn ni'n gofyn i sefydliadau eraill i'n helpu ni i ddeall atebion pobl. Felly, efallai y byddan nhw'n gweld eich gwybodaeth hefyd.




Fel arfer, rydyn ni'n cyhoeddi adroddiad sy'n dangos y mathau o bethau roedd pobl yn eu dweud.




Weithiau mae hyn yn meddwl bod manylion personol pobl yn cael eu cynnwys. Dywedwch wrthyn ni os nad ydych chi eisiau i'ch gwybodaeth bersonol gael ei chynnwys.




Os ydych chi yn ein hadroddiad mae'r wybodaeth yn gallu bod ar gael am amser hir.




Ond dim ond am 3 blynedd y mae gwybodaeth sydd ddim yn cael ei gyhoeddi yn cael ei gadw.




Mae'r deddfau diogelu data yn rhoi'r hawl i chi ichi:

- Gwybod pa wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a sut rydych chi'n gallu ei weld.
- Gwneud inni newid unrhyw gamgymeriadau yn yr wybodaeth amdanoch.
- Gofyn inni beidio defnyddio'r wybodaeth mewn rhai achosion.
- Gofyn inni ddileu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi mewn rhai achosion.
- Symud yr wybodaeth amdanoch chi i rywle arall mewn rhai achosion.
- Cwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio, cysylltwch â ni:



**Post:**

Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ



**E-bost:** Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Rydych chi hefyd yn gallu cysylltu â **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**:



**Post:** Tŷ Wycliffe
Lôn Ddŵr
Wilmslow
Swydd gaer
SK9 5AF



**Ffôn:** 01625 545745 or 0303 123 1113




**Gwefan:** https://ico.org.uk

# Geiriau Anodd

### Camdriniaeth

Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu neu yn eich trin yn ddrwg

### Cam-drin Rhywiol

Cam-drin plant yn rhywiol ydy pan fydd rhywun yn gorfodi neu'n perswadio plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n meddwl pethau fel cyffwrdd, edrych ar ddelweddau rhywiol, gwylio gweithredoedd rhyw a chymryd rhan mewn gweithredoedd rhyw.

### Cyd-gynhyrchu

Mae hyn yn meddwl bod gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ran gyfartal wrth ddweud sut y dylen nhw redeg.

### Nodweddion gwarchodedig

Mae'r rhain i'w gwneud â deddf o'r enw Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r gyfraith yma yn cydnabod bod llawer o bobl yn cael eu trin yn annheg am nifer o resymau. Er enghraifft, oherwydd eu hoed, anabledd, rhyw, hunaniaeth rywiol a phethau eraill.

Mae'r rhain yn cael eu galw'n nodweddion gwarchodedig. Mae'r gyfraith yn dweud bod angen gwneud mwy mewn cymdeithas i wneud yn siŵr bod pobl yn y grwpiau yma yn cael eu trin yn deg.